# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 21 Mehefin 2005]

**Dydd Mawrth 28 Mehefin a dydd Mercher 29 Mehefin 2005**

**Dydd Mawrth 5 Gorffennaf a dydd Mercher 6 Gorffennaf 2005**

**Dydd Mawrth 12 Gorffennaf a dydd Mercher 13 Gorffennaf 2005**

-

**Dydd Mawrth 28 Mehefin 2005**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Motion to approve under Standing Orders 24.25, 25.13 & 25.14 The NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) Regulations 2005 (1 munud)**
- **Motion to approve under Standing Orders 24.25, 25.13 & 25.14 The NHS Business Services Authority (Awdudrdod Gwasanaethau Busnes I GIG) (Establishment and Constitution) Order 2005 (1 munud)**
- **Motion to approve under Standing Orders 24.25, 25.13 & 25.14 The NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau`r GIG) Regulations 2005 (1 munud)**
- **Motion to approve under 24.25, 25.13 & 25.14 The NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau`r GIG) (Establishment and Constitution )Order 2005 (1 munud)**
- **Motion to approve under Standing Orders 24.25, 25.13 & 25.14 The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2005 (1 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 mun)**

- **Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005**

Bydd y Rheoliadau hyn yn cyflwyno dau ddiwygiad i Reoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2003. Mae'r diwygiad cyntaf yn ofynnol o dan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 a bydd yn caniatáu'r un statws i bartner sifil ag i briod, plentyn neu lysblentyn at ddibenion y Rheoliadau hyn. Diben yr ail ddiwygiad yw ei gwneud yn haws i fwy o bobl fanteisio ar addysg a galluogi pobl ar incwm isel, a all fod yn meddu ar gymwysterau uwch, i gael Cyfrif Dysgu Unigol i dalu am gwrs addysg.

- **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 er mwyn cynyddu'r symiau a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo hawl i gael ad-daliad am dreuliau teithio a pheidio â chodi tâl. Byddant yn caniatáu i'r Awdurdod Prisio Presgripsiynau, sy'n prosesu holl geisiadau'r DU ar gyfer y Cynllun Incwm Isel, i ddelio'n gyfartal â'r rhai sy'n hawlio waeth o ba wlad y deuant. Mae'r Cynllun yn darparu cymorth â chostau iechyd sy'n gysylltiedig ag incwm ar gyfer pobl nad ydynt wedi'u heithrio, nac â hawl awtomatig i gael peidio â thalu am wasanaethau y GIG y dylid talu amdanynt, ond a all fod, serch hynny, yn gymwys i gymorth gydag ambell gost ar sail incwm isel.

- **Rheoliadau Gwaith Stryd (Adennill Costau) (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu sylfaen gyson ar gyfer cyfrifo costau, gorbenion a chostau gweinyddol eraill y gall cwmnïau cyfleustod eu hawlio gan awdurdodau priffyrdd, ac i'r gwrthwyneb ar gyfer gwaith ar y ffordd o dan Rhan III Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

- **Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005**

Bydd y Rheoliadau hyn yn cymryd lle ac yn dirymu Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) 1992. Byddant yn lleihau cyfran y gost am waith y gall cwmni cyfleustod ei thalu pan fo'n rhaid amharu ar eu cyfarpar o dan y ffordd o ganlyniad i adeiladu cynllun trafnidiaeth gyhoeddus ar raddfa fawr o 18% i 7.5%. O ganlyniad, byddai hyrwyddwr y cynllun (h.y. awdurdod y briffordd,

y bont neu’r drafnidiaeth) yn talu am 92.5% o’r gost o wyro seilwaith y cyfleustod yn hytrach nag 82%.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Bydd y Gorchymyn hwn yn cyflwyno mesurau cadwraeth technegol a fydd yn helpu i ddiogelu'r bysgodfa cregyn bylchog. Bydd y mesurau yn cyflwyno rhagor o gyfyngiadau ar ddefnyddio llusgrwydi Ffrengig a chyfyngiadau ar faint a nifer y llusgrwydi y gall cychod eu defnyddio yn nyfroedd y glannau. Bydd hefyd yn rheoli manylion yr offer hwnnw ac yn cynorthwyo â'r gwaith o orfodi'r gyfraith o ran isafswm maint y cregyn sy'n dod i'r lan trwy gyflwyno rheolau ar y cregyn bylchog y gellir eu cario yn nyfroedd Cymru. Mae'r mesurau hefyd wedi eu hymestyn o ganlyniad i ymgynghoriad i gynnwys cyflwyno tymor caeedig.

- **Motion to approve the Civil Contingencies Act 2004 (Contingency Planning) Regulations 2005 under Standing Order 26. (15 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Reoliadau'r Cynllun Masnachu Gollyngiadau Nwyon T Gwydr 2005 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl a enwebwyd gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo'r Datganiad Amserlen Gyfnodol (15 munud)**

## Dydd Mercher 29 Mehefin 2005

- **Motion(s) to establish an advisory committee for the White Paper : Better Governance for Wales (1 munud )**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y T (5 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ganolfan Mileniwm Cymru (30 munud)**

- **Dadl ar NHS Capital Programme (60 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 5 Gorffennaf 2005</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus o'r Drefn o Reoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (30 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
- **Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symud Rhagnodedig) Cymru 2005**

Bydd y Rheoliadau hyn, gam wrth gam, yn cynyddu uchafswm ac isafswm y Taliadau Colli Cartref o'u lefelau presennol o £34,000 a £3,400 i £38,000 a £3,800 a chynyddu'r taliad cyfradd wastad o £3,400 i £3,800. Mae Taliad Colli Cartref yn iawndal statudol ac fe'i telir ar gyfradd o 10 y cant o werth yr eiddo ar y farchnad i berchen-feddiannwyr a thenantiaid sy'n cael eu dadleoli o'u cartrefi o ganlyniad i orchmynion prynu gorfodol neu orchmynion tai penodol. Mae'r rhain yn amodol ar daliadau uchafswm ac isafswm. Mae tenantiaid sy'n cael eu dadleoli yn cael cyfradd wastad sy'n gyfwerth â'r isafswm a delir i berchen-feddiannwyr. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2004 (O.S. 2004 Rhif 1758).

- **Rheoliadau Priffyrdd (Ysgolion) (Gorchmynion Dileu Arbennig a Gwyro Arbennig) (Cymru) 2005**

Bydd y Rheoliadau hyn yn caniatáu i awdurdodau priffyrdd lleol atal neu wyro hawliau tramwy sy'n croesi tir ysgol at ddibenion diogelu disgyblion a staff. Maent yn rhagnodi'r ffurfiau a'r hysbysiadau, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn, y bydd yr awdurdodau priffyrdd lleol yn gorfod cydymffurfio â hwy wrth wneud Gorchmynion Dileu Arbennig neu Orchmynion Gwyro

Arbennig sy’n ymwneud â phriffyrdd sy’n croesi tir sy’n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol.

- **Cynnig i gymeradwyo’r Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn cymryd lle Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003, fel y’u diwygir gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2004. Effaith fwriedig yr Offeryn hwn yw galluogi mwy o athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru i elwa ar y cymorth a ddarperir gan brosesau Ymsefydlu drwy gynyddu hyblygrwydd a hygyrchedd y fframwaith ymsefydlu.

- **Amser wedi'i neilltuo ar gyfer is-ddeddfwriaeth (45 munud)**

- **Dadl ar Iaith Pawb a'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Iaith Gymraeg (60 munud)**

**<u>Dydd Mercher 6 Gorffennaf 2005</u>**

- **Motions to establish the Advisory Committee under Standing Order 8.1 to review School Funding (1 munud)**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru 2005 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Prif Weinidog Cymru ar gyfer 2004/2005 (60 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol (45 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**

-

**Dydd Mawrth 12 Gorffennaf 2005**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Ysmygu Mewn Mannau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Amser wedi'i neilltuo ar gyfer is-ddeddfwriaeth (60 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol 2005 (60 munud)**

-

**Dydd Mercher 13 Gorffennaf 2005**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel sy’n cael ei nodi yn y rhestr o gyfrifoldebau’r Gweinidogion (30 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol (45 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio (45 munud)**